

**Ymgynghoriad**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

**Ffermio Cynaliadwy a'n Tir:  
Cynigion i barhau a symleiddio  
Cymorth Amaethyddol ar gyfer  
Ffermwyr a'r Economi Wledig**

---

**Dyddiad cyhoeddi: 31 Gorffennaf 2020**

**Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 23 Hydref 2020**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig sail reoleiddiol i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi ffermwyr, rheolwyr tir a'r economi wledig ehangach ar ôl i Gyfnod Gweithredu Cytundeb Ymadael â'r UE ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'n darparu fframwaith i gefnogi natur gystadleuol ffermio a chynhyrchu bwyd, ac yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn y cyfnod interim cyn cyflwyniad arfaethedig Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod tymor nesaf y Senedd.

## Sut i ymateb

### Sut i Ymateb

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn rhoi o'ch amser i ddarllen ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae pob cwstiwn ymgynghori yn ddewisol, ac eithrio'r adran 'Gwybodaeth amdanoch chi'. Mae hyn yn dangos i ni a yw'r ymgynghoriad wedi ymgysylltu ag ystod amrywiol ac eang o bobl.

Bydd ymatebion ar ran sefydliadau'n cael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion gan unigolion, felly mae'n bwysig i ni wybod a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rydym yn gofyn am eich enw chi ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, mae gennych y dewis i aros yn ddienw os dymunwch. Gweler yr adran Diogelu Data am ragor o wybodaeth am sut mae gwybodaeth yn cael ei defnyddio.

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 31 Gorffennaf a 23 Hydref 2020. Ni fydd unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei feddwl. Mae'ch safbwyntiau'n bwysig i ni. Byddant yn ein helpu i wella a llunio ein cynigion.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 23 Hydref 2020 am 23:59.

Dyma'r manylion am sut i ymateb:

Ar-lein

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

<https://llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol>

**Rhagor o  
wybodaeth a  
dogfennau  
cysylltiedig**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill  
o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

**Manylion cyswllt**

Ymgynghoriad Cymorth Amaethyddol 2021  
Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: CymorthAmaethyddol2021@llyw.cymru

**Hefyd ar gael yn  
Saesneg yn:**

<https://gov.wales/sustainable-farming-and-our-land-simplifying-agricultural-support>

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os yw Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Hefyd, dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Rhagair y Gweinidog

Mae tir Cymru yn bwysig i bob un ohonom. Mae'n cynnal bywoliaeth, yn cefnogi cymunedau ac yn cynhyrchu adnoddau naturiol rydym i gyd yn dibynnu arnynt. Mae'r rhai sy'n ei reoli'n cyfrannu llawer iawn at ein heconomi, ein hamgylchedd, ein cymunedau gwledig a'n gwlad.

Cyflwynodd dogfen ymgynghori'r llynedd, "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir" gynigion diwygiedig i ddarparu sefydlogrwydd hirdymor ar gyfer ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir Cymru. Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud eto ynglŷn â natur unrhyw gynllun newydd, ond mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae llawer o randdeiliaid yn helpu i ddatblygu dull gweithredu newydd, wedi'i gynllunio ar sail y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â symleiddio rheoliadau presennol y PAC, nes bod cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth a'r economi wledig yn cael eu cyflwyno drwy Bapur Gwyn a thrwy gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor nesaf y Senedd.

Mae'r cynigion yn sefydlu fframwaith interim symlach, a fydd yn cefnogi natur gystadleuol ffermio a chynhyrchu bwyd, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, sicrhau safonau uchel o iechyd a llesiant anifeiliaid a diogelu ein hadnoddau naturiol.

Rwy'n croesawu'ch safbwyntiau ar y cynigion.



Lesley Griffiths AS  
Gweinidog yr Amgylchedd,  
Ynni a Materion Gwledig



## **Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Ar 31 Ionawr 2020 ymadawodd y Deyrnas Unedig (y DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) gan ddechrau'r Cyfnod Gweithredu, y disgwylir iddo ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Er mwyn parhau i gefnogi ffermwyr Cymru a'r economi wledig ehangach hyd nes y bydd cynlluniau cymorth amaethyddol newydd ar gael, sydd wedi'u cynllunio ar sail egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau â'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), gan ei symleiddio a'i gyfuno â'n fframwaith deddfwriaethol unigryw, yn benodol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd Bil Amaethyddiaeth y DU sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Mae Atodlen 5 i'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio ac ehangu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir er mwyn symleiddio'r broses o weinyddu'r cynllun neu sicrhau bod modd ei weithredu'n fwy effeithlon neu effeithiol; dileu darpariaethau sydd wedi'u disbyddu neu nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol; dileu neu leihau beichiau ar unigolion sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol; sicrhau bod y sancsiynau sy'n cael eu cyflwyno'n briodol ac yn gymesur, a chyflwyno'r cynllun yng Nghymru yn unig.

Hefyd, mae Atodlen 5 yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ("CDG").

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn nodi nifer o newidiadau bach ond effeithiol i ofynion y cynllun, sy'n cadw prif elfennau'r fframwaith rheoleiddio presennol, ac yn cyflwyno polisi Llywodraeth Cymru sy'n nodi bod yn rhaid cynnal safonau uchel o ddiogelwch bwyd, llesiant anifeiliaid a safonau amgylcheddol.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn berthnasol i Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) a'r CDG domestig newydd yn unig, a fydd yn dechrau ym mlwyddyn 2021 y cynllun. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u cyfyngu'n fwriadol i addasu neu ddileu agweddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn angenrheidiol yng Nghymru bellach. Disgwylir newidiadau sylweddol o dan y cynlluniau Ffermio Cynaliadwy a fydd yn cael eu cynnwys ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) yn y dyfodol.

Bydd y cynllun BPS presennol, a ariennir gan yr UE (blwyddyn hawlio 2019 ac yn gynharach), a chynlluniau CDG yn parhau i weithredu o dan gyfraith yr UE yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymadael. Mae hyn yn golygu y bydd Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (y CDG) yn parhau tan 31 Rhagfyr 2023 ac yn parhau i weithredu o dan gyfraith yr UE; ac y bydd unrhyw raglen datblygu gwledig newydd sy'n cael ei hariannu'n ddomestig yn gweithredu dan gyfraith yr UE a ddargedwir, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud trwy ddefnyddio pwerau Bil Amaethyddiaeth y DU.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y rhaglenni cymorth hyn ar gyfer yr economi wledig nes bod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar gael yn y dyfodol fel rhan o gyfnod pontio sawl blwyddyn.



## **Cynigion Cynllun y Taliad Sylfaenol**

Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) wedi bod yn rhan bwysig o incwm busnesau fferm ers 2015, ac ar hyn o bryd dyma'r prif ddull o ddarparu arian i ffermwyr yng Nghymru. Mae'r cynigion canlynol yn caniatáu i'r fframwaith rheoleiddiol barhau, gan leihau cymhlethdod.

Yn ein hymgyngoriad ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, nodwyd ein bwriad i ddisodli'r BPS, ond hefyd fe wnaethom gadarnhau y byddai digon o amser i ffermwyr a rheolwyr tir newid i unrhyw drefniadau newydd, gan gynnig cyfnod pontio sawl blwyddyn. Yn ogystal, er mwyn darparu sicrwydd, ym mis Tachwedd 2019 cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y byddai'r BPS yn parhau heb unrhyw newid yn 2021, ar yr amod bod Llywodraeth y DU yn darparu cyllid newydd digonol.

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn cyflwyno cynigion i ddarparu cynllun BPS wedi'i symleiddio yng Nghymru, gan ddarparu fframwaith deddfwriaethol a domestig i ddarparu cymorth amaethyddol uniongyrchol i ffermwyr Cymru nes bod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar gael.

### **1. Cyfraddau talu a dyraniad blynyddol BPS**

Cefndir:

Bydd yr arian ar gyfer cymorth amaethyddol, gan gynnwys BPS 2021, yn cael ei ddarparu fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU, sy'n cael ei ddisgwyl yn ystod Hydref 2020. Ar ôl ei gadarnhau, bydd Bil Amaethyddiaeth y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer y swm sydd ar gael ar gyfer BPS ("terfyn y taliadau uniongyrchol") ar gyfer Cymru mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yr UE sy'n llywodraethu'r PAC yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu cyllidebau unigol ar gyfer pob elfen sy'n ffurfio'r taliad BPS blynyddol (BPS, Taliad Gwyrdd, Ailddosbarthu a Ffermwyr Ifanc). Mae'r cyllidebau unigol hynny'n cael eu hystyried ochr yn ochr â chyfanswm yr hectarau sy'n cael eu datgan bob blwyddyn i gyfrifo'r cyfraddau talu.

O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd yr holl gyllideb yn cael ei gwario bob blwyddyn, gan gynnwys mewn achosion lle mae cosbau gweinyddol yn cael eu hychwanegu at hawliadau neu pan fydd hawliau'n cael eu cadw yn y Gronfa Genedlaethol, cyn cael eu hailddyrannu. Mewn blynyddoedd blaenorol, ni fu modd addasu'r arian nas gwariwyd at ddibenion gwahanol ar ôl ei ddyrannu i BPS, ac yn hytrach fe'i cadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o drefniant cyllido Fframwaith Ariannol Amflwydd yr UE.

Cynnig:

Rydym yn cynnig gosod terfyn uchaf BPS Cymru bob blwyddyn, a rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddyrannu unrhyw arian sy'n weddill a dyrannwyd i BPS.

C1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf y BPS, mewn perthynas â Chymru?

C2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru reoli unrhyw arian sydd heb ei wario a ddyrannwyd i BPS?

## **2. Rheol cais sengl trawsffiniol (ledled y DU)**

Cefndir:

Pan fydd tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, cyflwynir hawliadau ar wahân i bob Asiantaeth Dalu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r hawliadau ar wahân gael eu trin fel hawliad unigol ledled y DU gyfan.

Cwblheir gwiriadau yn erbyn pob hawliad BPS a rhennir y canlyniadau rhwng yr asiantaethau talu perthnasol. Ar ôl cwblhau'r gwiriadau, bydd yr Asiantaeth Dalu arweiniol yn cwblhau'r gwaith prosesu a thalu (neu'n rhoi gwybod am ddyled).

O dan reolau maint lleiaf yr hawliad ar gyfer Cymru, rhaid datgan o leiaf 5 hectar cymwys i gefnogi cais cymwys. Mae tua 600 o ffermydd trawsffiniol sydd â thir ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac ychydig o ffermydd â thir yn yr Alban.

Cynnig:

Y bwriad yw ystyried tir Cymru at ddibenion cyfrifo hawliadau BPS yng Nghymru yn unig. O ganlyniad, bydd taliadau'n cael eu gwneud cyn gynted ag y cwblheir gwiriadau yng Nghymru. Ni fydd cosbau gweinyddol a ganfuwyd ar dir sydd wedi'i leoli mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU yn cael eu defnyddio ar gyfer ceisiadau o Gymru. Fodd bynnag, os oes llai na 5 hectar o dir cymwys Cymru ar gael, byddai'r cais o Gymru'n cael ei ystyried yn anghymwys ac yn cael ei wrthod o dan reolau maint lleiaf yr hawliad.

C3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu ceisiadau trawsffiniol ac ystyried tir Cymru yn unig ar gyfer hawliadau BPS yng Nghymru, gan ddileu'r angen i aros am wiriadau gan asiantaethau talu eraill?

C4. A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai maint lleiaf yr hawliad aros yn ddigyfnewid a pheidio â gwneud unrhyw ddarpariaeth i ffermwyr sy'n dibynnu ar dir mewn rhannau eraill o'r DU ar hyn o bryd i gydymffurfio ag arwynebedd maint lleiaf yr hawliad, sef 5 hectar cymwys?

## **3. Taliad Gwyrdd**

Cefndir:

Fel rhan o'r BPS, mae'n rhaid i ffermwyr ymgymryd ag arferion amaethyddol gorfodol sydd o fudd i'r hinsawdd a'r amgylchedd, y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel y Taliad Gwyrdd.

Ni all hawlwy'r ildio gofynion y Taliad Gwyrdd a pharhau i hawlio'r taliad BPS sy'n weddill.

Mae hawlwy'r y BPS yn derbyn taliad ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u prif daliad BPS ar gyfer bodloni rheolau'r Taliad Gwyrdd. Cyfrifir y taliad gan ddefnyddio 30% o gyfran Cymru o'r gyllideb Taliadau Uniongyrchol (Colofn 1).

Ar hyn o bryd, mae tua 97% o hawlwy'r Cymru yn bodloni gofynion y Taliad Gwyrdd, ac felly'n derbyn y taliad hwn, drwy eu datganiadau tir pori parhaol yn hytrach na gorfod ymgymryd ag arferion ychwanegol sy'n fuddiol i'r amgylchedd.

Dyma ofynion y Taliad Gwyrdd:

- Tyfu amrywiaeth o gnydau:

Ar dir âr cymwys rhwng 10 a 30 hectar o ran maint, mae'n rhaid i ffermwyr dyfu dau gnwd gwahanol. Ni chaiff y prif gnwd orchuddio mwy na 75% o'r tir. Os yw'r tir âr cymwys yn fwy na 30 hectar o ran maint, bydd angen i chi dyfu o leiaf 3 chnwd gwahanol, ac ni chaiff unrhyw gnwd orchuddio mwy na 75% o'ch tir âr. Ni all y ddau gnwd mwyaf gyda'i gilydd orchuddio mwy na 95% o'ch tir âr.

- Cynnal glaswelltir parhaol presennol:

Ni chaiff tir sydd wedi'i ddynodi'n laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif (ESPG) yn 2015 gael ei aredig na'i droi'n ddefnydd tir âr o dan reolau'r Taliad Gwyrdd.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y diffiniad, sy'n mynd y tu hwnt i'r gofyniad sylfaenol i ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Gan gydnabod bod rhai parseli tir unigol yn creu manteision amgylcheddol os cânt eu haredig neu eu defnyddio i dyfu cnydau âr penodol weithiau (e.e. Gwastadeddau Gwent), gwneir darpariaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") gymeradwyo'r newidiadau hynny yn y defnydd o dir.

Ni chaniateir i fwy na 5% o dir yng Nghymru sydd wedi'i ddynodi'n laswelltir parhaol gael ei aredig na'i ddefnyddio at ddibenion eraill mewn unrhyw flwyddyn.

- Datblygu Ardal â Ffocws Ecolegol (EFA) ar yr arwynebedd amaethyddol:

Os yw tir âr daliad yn gorchuddio mwy na 15 hectar, bydd y ffermwr yn sicrhau, o 1 Ionawr 2015, bod arwynebedd sy'n cyfateb i o leiaf 5% o dir âr y daliad a ddatganodd y ffermwr yn EFA.

Mae profiad gweithredol o fodloni gofyniad y Taliad Gwyrdd wedi arwain at y casgliad ei fod yn cynnig manteision amgylcheddol ychwanegol cyfyngedig yng Nghymru.

Mae gwaith monitro yn cadarnhau bod lefelau isel o gnydau âr a newidiadau defnydd tir bach iawn yn effeithio ar laswelltir parhaol (gan gynnwys ESGP). Fel arfer, mae'r gwrychoedd a'r waliau cerrig sydd wedi'u datgan i fodloni gofynion EFA eisoes wedi'u diogelu fel Nodweddion Tirwedd o dan wiriadau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da ("GAEC") gwiriadau Trawsgydymffurfio.

Yn ogystal, mae'r system bresennol o fesurau'r Taliad Gwyrdd wedi'i beirniadu gan archwilwyr ers ei chyflwyno, ac ni chredir ei bod yn gwireddu'r dyheadau amgylcheddol gwreiddiol.

Cyhoeddodd Llys Archwilwyr Ewrop (ECA) adroddiad arbennig yn 2017, "*Greening: a more complex income support scheme, not yet environmentally effective (2017)*", gan geisio dylanwadu ar ddiwygiadau'r PAC yn y dyfodol sydd wedi ystyried effaith rheoliadau'r Taliad Gwyrdd yn fanwl. Canfu'r adroddiad:

- Nad yw'r taliad gwyrdd yn debygol o ddarparu manteision sylweddol i'r amgylchedd na'r hinsawdd, yn bennaf oherwydd y pwysau marw

sylweddol sy'n effeithio ar y polisi. Amcangyfrifir bod y taliad gwyrdd wedi arwain at newidiadau mewn arferion ffermio ar 5% yn unig o holl dir ffermio'r UE;

- nad yw canlyniadau tebygol y Taliad Gwyrdd yn cyfiawnhau'r cymhlethdod sylweddol sy'n deillio o'i gynnwys yn y PAC. Mae rhan o'r cymhlethdod hwn yn deillio o orgyffwrdd rhwng y taliad gwyrdd ac offerynnau amgylcheddol eraill y PAC, gan gynnwys GAECs. Mae'r Taliad Gwyrdd yn debyg i GAECs oherwydd ei fod yn set o amodau amgylcheddol sylfaenol yn ei hanfod sy'n berthnasol i gymhorthdal incwm; a
- daeth i'r casgliad nad yw'r Taliad Gwyrdd, fel y'i gweithredir ar hyn o bryd, yn debygol o wella perfformiad amgylcheddol a hinsawdd y PAC yn sylweddol.

Yn ôl adroddiad ECA 2020 "*Biodiversity on Farmland: CAP contribution has not halted the decline*":

- ni ellir dangos yn glir yr effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth tir fferm (yn deillio o arferion y taliad gwyrdd). Yn ogystal, nid yw gofynion y taliad gwyrdd yn feichus ar y cyfan ac maent yn adlewyrchu arferion ffermio arferol i raddau helaeth; ac
- anaml y mae tyfu amrywiaeth o gnydau yn arwain at newid arferion rheoli tir. Mae Dogfen Weithio Staff y Comisiwn (Dogfen SWD y Comisiwn (2018) 479) wedi dod i'r casgliad mai mesur y taliad gwyrdd sydd â'r manteision amgylcheddol lleiaf.

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir bod angen cynnal safonau uchel o safbwynt diogelwch bwyd, lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol yng Nghymru. Ychydig iawn y mae'r taliad gwyrdd fel y'i gweithredir ar hyn o bryd yn cyfrannu at y polisi hwn.

Cynnig:

Mae gwella arferion a safonau amgylcheddol yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a bydd yn elfen sylfaenol o'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod tymor nesaf y Senedd. Yn y cyfamser, rydym yn bwriadu cynnal safonau ac arferion amgylcheddol presennol, cadw unrhyw fanteision amgylcheddol o brosesau'r Taliad Gwyrdd, ond dileu rhai o'r cymhlethdodau presennol drwy symud gofynion a ddargedwir, sy'n cael eu cyflawni gan tua 3% o hawlwyd nad ydynt yn gymwys yn awtomatig ar sail eu glaswelltir parhaol, i drawsgydymffurfio.

Drwy fonitro newidiadau i'r defnydd o dir yn flynyddol ac amddiffyn gofynion Glaswelltir Parhaol ac EFA drwy drawsgydymffurfio, ein nod yw lleihau gofynion mwy cymhleth nad ydynt yn arwain at fanteision amgylcheddol ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu dileu elfen Tyfu Amrywiaeth o Gnydau o'r Taliad Gwyrdd. Cafodd yr arferiad hwn ei gynnwys yn safonau'r Taliad Gwyrdd er mwyn atal cyfundrefnau ffermio ungnwd. Yng Nghymru, lle mae'r math hwn o ffermio'n llai cyffredin nag mewn rhannau eraill o'r UE, mae wedi dod yn ofyniad diangen i ffermwyr.

Ni fydd angen y cyllid 30% a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer y Taliad Gwyrdd gan y bydd gofynion Glaswelltir Parhaol ac EFA yn cael eu bodloni o dan y system Drawsgydymffurfio. Yn hytrach, bydd y cyllid yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cyllid a ddyrennir i BPS. Ni fyddai ffermwyr Cymru o dan anfantais ariannol o ganlyniad i'r cynnig hwn gan nad oes unrhyw ostyngiadau wedi'u cynllunio i swm y taliadau uniongyrchol sy'n cael eu derbyn o ganlyniad i ailstrwythuro gofyniad y Taliad Gwyrdd. .

C5. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gadw manteision amgylcheddol arferion y Taliad Gwyrdd drwy Drawsgydymffurfio?

C6. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r rheol Tyfu Amrywiaeth o Gnydau o ofynion y Taliad Gwyrdd?

#### **4. Cynllun Ffermwyr Ifanc**

Cefndir:

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Ffermwyr Ifanc yn rhoi cymorth ychwanegol i ffermwyr sy'n dechrau cynnal eu busnes fferm eu hunain cyn eu bod yn 40 oed trwy ddarparu taliad bach atodol i daliadau BPS am uchafswm o 5 mlynedd.

Cyfrifir y taliad gan ddefnyddio 25% o gyfartaledd gwerth Hawliad BPS Cymru 2020, wedi'i luosi â nifer yr Hawliadau BPS y mae'r ffermwr ifanc wedi'u defnyddio ar gyfer y cynllun bob blwyddyn hyd at uchafswm o 25 hectar. Mae'r taliad yn defnyddio 0.2% yn unig o gyfran Cymru o gyfanswm y gyllideb.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i gefnogi'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol ac maent yn cydnabod yr angen i annog demograffeg iau yn y diwydiant. Mae'r cynllun presennol o fudd i nifer fach o ffermwyr Cymru, fel y dangosir gan gyfran 0.2% o gyfanswm y gyllideb.

O ystyried y nifer gymharol fach o ffermwyr sy'n gymwys i hawlio cymorth o dan y Cynllun Ffermwyr Ifanc yng Nghymru, mae angen inni ystyried a yw'r cynllun yn llwyddo i ddarparu cymorth i'r diwydiant amaethyddol yn ei gyfanrwydd

Cynnig:

Un dewis fyddai cau'r cynllun Ffermwyr Ifanc i geisiadau newydd o BPS 2021 ymlaen. Bydd ffermwyr ifanc sydd eisoes yn gymwys ar gyfer y cynllun yn parhau i dderbyn unrhyw daliadau atodol sy'n weddill, gyda'r rhai a ymgeisiodd yn 2017 yn derbyn eu taliad olaf yn 2021, a'r rhai a ymgeisiodd ac a oedd yn gymwys yn 2020 yn cadw'r taliadau atodol blynyddol tan 2024.

Drwy gau'r cynllun i geisiadau newydd ar ôl BPS 2020, bydd y beichiau gweinyddol yn lleihau a bydd modd sicrhau nad yw hyn yn troi'n "gynllun etifeddol" a fyddai'n parhau mewn rhaglenni Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol.

Hefyd, byddai cau'r cynllun yn arwain at gynnydd bach yn yr holl hawliadau BPS, sydd o fudd i gronfa fwy o ymgeiswyr.

Byddai Ffermwyr Ifanc yn parhau i fod yn gategori blaenoriaeth sy'n gymwys i wneud cais am Hawliadau BPS o'r Gronfa Genedlaethol.

C7. A ydych yn credu y dylem gau'r cynllun hwn i ymgeiswyr newydd o 2021?

C8. Ac eithrio'r opsiwn i gau'r Cynllun Ffermwyr Ifanc i geisiadau newydd o 2021, a oes opsiynau eraill y gellid eu hystyried?

## 5. Rheolau'n ymwneud â dogfennau ategol hwyr ar gyfer BPS

Cefndir:

O dan y rheolau presennol, mae'n rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau ategol gyda hawliad dilys erbyn 15 Mai, neu wynebu cosb hwyr o 1% am bob diwrnod gwaith, ac mae'n bosibl y bydd y cais yn cael ei wrthod os yw'n cael ei gyflwyno ar ôl dyddiad olaf cyflwyno Ffurflen y Cais Sengl (SAF).

Cynnig:

Rydym yn cynnig rhoi mwy o hyblygrwydd i hawlwrwyr drwy ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol y BPS tan hanner nos ar 31 Rhagfyr yn y flwyddyn hawlio berthnasol. Er ein bod yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o hawlwrwyr yn parhau i gyflwyno eu dogfennau ategol gyda'u hawliad, mae'r estyniad yn darparu cymaint o amser â phosibl i gadarnhau a yw hawliad pob blwyddyn yn gymwys. Os yw'r cynnig ar gyfer rhagdaliad yn cael ei weithredu (gweler isod, cynnig 9), byddai absenoldeb dogfennau ategol yn atal rhagdaliad, gan y byddai hyn yn un o'r gwiriadau cymhwysedd sylfaenol.

Nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno'r ffurflen gais erbyn 15 Mai, gan ei bod yn cynnwys cynlluniau CDG parhaus sy'n cael eu rhoi ar waith o dan Gyfraith yr UE. Nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r cosbau hwyr (1% am bob diwrnod gwaith) a'r drefn o wrthod cais yn y pen draw os yw'n cael ei gyflwyno ar ôl y dyddiad cyflwyno terfynol.

Yn yr un modd, nid oes unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig i'r rheolau diwygio hawliad hwyr. Mae modd gwneud newidiadau i'r ffurflen gais heb gosb tan 30 Mai, ac yna bydd cosb o 1% am bob diwrnod gwaith hyd at y dyddiad cyflwyno terfynol.

C9. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn dyddiad cyflwyno dogfen ategol y BPS i 31 Rhagfyr?

C10. A ydych yn cytuno â'r cynnig i beidio â newid y dyddiad terfynol ar gyfer ceisiadau a'r gosb am gais hwyr?

## 6. Y Gronfa Genedlaethol

Cefndir:

Mae'r Gronfa Genedlaethol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 'Newydd-ddyfodiaid' a 'Ffermwyr Ifanc' sy'n dymuno gwneud cais am Hawliau BPS newydd.

Mae'r Gronfa Genedlaethol yn cael ei hailgyflenwi bob blwyddyn o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Hawliadau nad ydynt wedi'u defnyddio ("cymryd yn ôl") ar gyfer taliad yn ystod dwy flynedd yn olynol.

Y rhesymau posibl am hyn yw:

- peidio â datgan digon o dir i weithredu'r holl Hawliau.
- methu gwiriadau Ffermwr Actif.

- peidio â datgan 5 hectar o dir cymwys.
- os canfyddir bod hawlwyrr yn osgoi 'capio'.

Cynnig:

Rydym yn bwriadu cadw'r rheol defnyddio 2 flynedd er mwyn "cymryd yn ôl" Hawliadau BPS nad ydynt wedi'u gweithredu. Yn ogystal, rydym yn bwriadu caniatáu ceisiadau gan ffermwyr sydd wedi prynu tir newydd neu sydd wedi ymrwymo i brydles hirdymor o 5 mlynedd neu fwy, ers 2015.

C11. A ydych chi'n cytuno y dylid ehangu categorïau'r Gronfa Genedlaethol i gynnwys tir ychwanegol a gaffaelwyd?

C12. A oes unrhyw gategorïau neu gynigion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer y Gronfa Genedlaethol yn eich barn chi?

## 7. Cyfraddau Arolygu

Cefndir:

Yn gyffredinol, mae'r gyfradd rheoli hapwiriadau ar gyfer cynlluniau Cymorth Uniongyrchol yn 5% o boblogaeth yr hawliad, er bod hyn yn gallu amrywio yn ôl y cynlluniau unigol sy'n creu'r taliad BPS.

Ar gyfer BPS, cyfradd reoli'r Comisiwn Ewropeaidd yw 5% o hawlwyrr. Fodd bynnag, oherwydd safon uchel y rheolaethau gweinyddol a mapio sydd ar waith, y defnydd o geisiadau geo-ofodol ar-lein a chyfradd isel y gwallau hanesyddol, mae deddfwriaeth yr UE yn caniatáu i Lywodraeth Cymru leihau hyn i 3% o hawlwyrr.

Ni ellir cymhwyso'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd i leihau cyfraddau rheoli ar gyfer cynlluniau'r Taliad Gwyrdd a Ffermwr Ifanc, sydd wedi'u pennu'n 5%, er bod systemau rheoli digonol ar waith a chyfraddau gwallau isel. Mae hyn yn arwain at gyfradd reoli gyffredinol sy'n uwch na 3% sy'n ofynnol ar gyfer BPS.

Cynnig:

Rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol arolygu 3% o sampl gyffredinol poblogaeth y cynllun cyfun, yn hytrach na hyd at 5% o'r cynlluniau unigol ac ar wahân. Byddem yn parhau i fonitro cyfraddau gwallau er mwyn asesu a oes angen arolygiadau ychwanegol er mwyn sicrhau lefelau cydymffurfio boddhaol.

Hefyd, rydym yn bwriadu defnyddio'n llawn yr achosion a ddewiswyd fel rhan o reolaethau arolygu Cynllun Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd i gyfrannu at y cyfraddau rheoli BPS cyffredinol.

Bydd y cynigion hyn yn lleihau nifer yr archwiliadau ar gyfer hawlwyrr unigol ond yn cadw cyfraddau rheoli arolygu priodol i fodloni gofynion cyfunol cyfraith yr UE a deddfwriaeth ddomestig.

C13. A ydych yn cytuno â'r bwriad hwn i leihau cyfraddau arolygu'r BPS?

## 8. Datgan gormod o dir

Cefndir:

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i hawlwyd ddatgan yr holl dir sydd ar gael iddynt ar 15 Mai wrth wneud cais am BPS. Mae'n rhaid defnyddio codau cnydau penodol er mwyn nodi tir sy'n gymwys am daliad. Mae datgan gormod o arwynebeddau cymwys mewn ffordd wallus yn arwain at ostyngiadau a chosbau ariannol.

Os yw'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd cymwys sy'n cael ei ddatgan a'r arwynebedd a bennwyd ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na 3% neu 2 hecтар, bydd yr arwynebedd sy'n gymwys am daliad yn cael ei leihau 1.5 gwaith y gwahaniaeth a ganfuwyd.

Fodd bynnag, os yw'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd a ddatganwyd a'r arwynebedd a bennwyd ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na naill ai 3% neu 2 hecтар, ond heb fod yn fwy na 10% o'r arwynebedd a bennwyd, bydd 'Cerdyn Melyn' yn cael ei gymhwysio i'r gosb ar gyfer y cynllun hwnnw. Mae hyn yn golygu y bydd y gosb a gymhwysir yn cael ei chyfrifo (fel y disgrifiwyd uchod) ac yn cael ei gostwng 50%. Mae hyn yn berthnasol i bob cynllun ar wahân ar hyn o bryd - BPS, y Taliad Gwyrdd, Ailddosbarthu a Ffermwyr Ifanc. Dim ond unwaith fesul cynllun y gellir cyflwyno 'Cerdyn Melyn'.

Os yw'r busnes fferm yn datgan gormod o dir ar gyfer unrhyw arwynebedd cymwys y flwyddyn ganlynol, cyflwynir cosb am hynny. Hefyd, bydd y 50% sy'n weddill o gosb y flwyddyn flaenorol yn cael ei hawlio/bydd y taliad yn cael ei adennill.

Cynnig:

Rydym yn bwriadu symleiddio'r trefniadau ar gyfer datgan gormod o dir drwy ddileu'r cyfyngiad bod y 'Cerdyn Melyn' ond yn berthnasol unwaith fesul cynllun, a thrwy ddileu'r gofyniad am ad-dalu'r Cerdyn Melyn (y 50% sy'n weddill) os oes gormod o dir yn cael ei ddatgan yn y flwyddyn ganlynol.

Os yw'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd a ddatganwyd a'r arwynebedd a bennwyd ar gyfer grŵp cnydau yn fwy na 3% neu 2 hecтар, bydd yr arwynebedd sy'n gymwys am daliad ond yn cael ei leihau 1.5 gwaith y gwahaniaeth a ganfuwyd.

C14. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu cyfyngiad y "Cerdyn Melyn"?

## **9. Cyfnod Talu BPS ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi'u dilysu**

Cefndir:

Fel arfer, mae hawliadau BPS cymwys a gyflwynir bob blwyddyn erbyn 15 Mai yn cael eu talu rhwng 1 Rhagfyr a 30 Mehefin yn y flwyddyn ganlynol, ar ôl cwblhau'r holl wiriadau dilysu gweinyddol. Ar gyfer nifer fach o ffermwyr e.e. pan fydd hawliadau'n cael eu dewis i'w harchwilio, mae'n bosibl y bydd angen llawer o amser i gwblhau gwiriadau.

Mae Cynllun Cymorth y Cynllun Taliad Sylfaenol wedi bod ar gael dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2018 roedd yn gysylltiedig â'r tywydd garw ac yn 2019 roedd yn darparu cymorth ariannol fel rhan o becyn ehangach o baratodau ar gyfer Ymadael â'r UE heb gytundeb. Roedd y rhagdaliad hwn a ariannwyd yn ddomestig yn caniatáu i ganran o werth yr hawliad a ragwelir gael ei thalu cyn cwblhau'r holl wiriadau.

Cynnig:



Rydym yn cynnig newid y model talu a dileu'r angen am ddilysu hawliadau'n llawn cyn gwneud rhagdaliad o 70% o werth yr hawliad a ragwelir.

Byddai'r rhagdaliad yn cael ei wneud yn awtomatig i bawb sy'n hawlio BPS ym mis Hydref bob blwyddyn, yn amodol ar wiriadau cymhwysedd sylfaenol, a bydd y taliad olaf yn cael ei wneud o fis Chwefror y flwyddyn ganlynol ar ôl cwblhau'r gwiriadau dilysu yn llawn.

Mewn achos o ordalu rhagdaliad, bydd y gordaliad yn cael ei dynnu o'r taliad olaf, neu ei adennill o dan y broses ddyled a sefydlwyd os oes angen.

C15. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno model rhagdaliad a thaliad olaf a dileu'r gofyniad am ddilysu hawliadau'n llawn cyn gwneud rhagdaliad cynnar?

## **10. Gofyniad Ffermwr Actif**

Cefndir:

Diffiniad o Ffermwr;

Er mwyn cael defnyddio Hawliadau BPS a chael taliad, rhaid i hawlydd fodloni diffiniad y BPS o 'Ffermwr' trwy ymgymryd â 'Gweithgarwch Amaethyddol' a bod yn gymwys fel "Ffermwr Actif", sy'n effeithio ar ffermwyr sy'n rhan o gynllun Glastir Organig hefyd.

Gweithgarwch Amaethyddol Sylfaenol:

Mae 'Ffermwr' yn berson neu'n grŵp o bobl neu fusnes sy'n cynnal 'gweithgarwch amaethyddol', sy'n golygu gwneud o leiaf un o'r gweithgareddau canlynol:

- cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol. Mae hynny'n cynnwys cynaeafu cnydau neu gadw anifeiliaid ar gyfer eu godro, eu bridio neu at bwrpas amaethyddol arall
- cadw tir amaethyddol mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer ei bori neu ei drin ond heb ei baratoi yn fwy na thrwy ddulliau neu beiriannau amaethyddol arferol. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu rheoli chwyn a phrysgwydd estron goresgynnol;
- cynnal gweithgarwch sy'n bodloni gofynion sylfaenol ar dir amaethyddol sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori neu ei drin. Yng Nghymru, morfeydd heli a thwyni tywod yw tir amaethyddol sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori neu ei drin. Rhaid ichi bori gydag o leiaf 0.01 i 0.05 uned da byw'r hectar y flwyddyn ar gyfartaledd ar y tir hwn.

Ffermwr Actif – y prawf rhestr negyddol:

Cyflwynwyd y 'rhestr negyddol' i PAC yr UE yn 2015 ond daeth yn ddewisol yn dilyn diwygiadau pellach i'r PAC yn 2018. Yng Nghymru, mae'r 'rhestr negyddol' yn cynnwys hawlwr sy'n gweithredu rheilffyrdd, gweithfeydd dŵr, gwasanaethau eiddo tirol neu diroedd chwaraeon a hamdden.

Mae'n rhaid i hawlwr ar y 'rhestr negyddol' ddarparu tystiolaeth i gymhwyso eto fel Ffermwyr Actif. Mae'r ychydig hawlwr sy'n sbarduno'r prawf hwn yn cymhwyso eto fel Ffermwyr Actif trwy fodloni un o'r meini prawf aildderbyn, fel arfer drwy ddatgan 21 hectar o dir amaethyddol cymwys.

Cynnig:

Rydym yn bwriadu dileu'r gwiriad 'rhestr negyddol' ar gyfer Ffermwyr Actif, ond cadw'r gwiriadau i sicrhau bod buddiolwyr BPS yn ymgymryd â lefelau sylfaenol o 'Weithgarwch Amaethyddol'.

C16. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad rhestr negyddol ar gyfer Ffermwyr Actif a chadw'r lefelau sylfaenol o 'Weithgarwch Amaethyddol'?

## 11. Cywarch

Cefndir:

Gellir datgan tir sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cywarch ar gyfer gwneud ffeibr neu at ddibenion eraill, a gellir ei ddefnyddio i gefnogi cais BPS. Os ydych yn tyfu cywarch, rhaid defnyddio had ardystiedig un o'r mathau cymwys o gywarch. Rhaid anfon y labeli had swyddogol gwreiddiol, sy'n cadarnhau'r math o gywarch, at Lywodraeth Cymru gyda'r SAF.

Wrth ddatgan y cnwd hwn, mae angen tystiolaeth o gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref i dyfu cywarch, i'w gyflwyno erbyn 30 Mehefin. Hefyd, bydd angen profi'r cynnwys tetrahydrocannabinol ("THC").

Rhaid archwilio o leiaf 20% o gyfanswm yr arwynebedd lle mae cywarch yn tyfu er mwyn sicrhau nad yw cynnwys THC y cnwd yn fwy na'r lefel a ragnodwyd. Rhaid ichi felly, ar gyfer pob math o gywarch rydych yn ei hau, rannu pob cae yn eich cais yn dair a chadw o leiaf 4,000 o blanhigion ym mhob rhan, am o leiaf 10 niwrnod ar ôl i'r planhigion flodeuo, rhag ofn y bydd angen cymryd sampl.

Cynnig:

Rydym yn cynnig y dylid tynnu tir a ddefnyddir i dyfu cywarch o'r rhestr o godau cnydau cymwys gan nad oes unrhyw gais llwyddiannus wedi'i gyflwyno yng Nghymru ers 2015. Ni fydd yn gymwys bellach ar gyfer BPS.

C17. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i dynnu tir a ddefnyddir i gynhyrchu cywarch oddi ar y rhestr o godau cnydau cymwys a pheidio â bod yn gymwys ar gyfer BPS bellach?

## Cynigion Datblygu Gwledig Domestig

Cefndir:

Mae Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn cael ei darparu gan ail golofn y PAC, sy'n darparu cyllid ar y cyd ar gyfer rhaglen amlflwydd i gefnogi datblygu gwledig. Cymeradwywyd Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020 ym mis Mai 2015, a bydd yn parhau i ddarparu cymorth gwledig o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, tan 2023.

Dangosodd gwaith dadansoddi a gwblhawyd yn 2012 fod y 3 amcan canlynol a nodwyd yn neddfwriaeth yr UE yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru, ac mae'r Rhaglen yn mynd i'r afael â nhw:

- cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth, gan wella eu gallu i gystadlu a'u gwydnwch, a lleihau eu dibyniaeth ar gymorthdaliadau
- gwella'r amgylchedd, gan hyrwyddo arferion rheoli tir cynaliadwy, rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd
- hyrwyddo twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy a datblygiadau lleol a arweinir gan y gymuned

Mae'r rhan hon o'r papur ymgynghori yn nodi cynigion i ddarparu fframwaith ar gyfer cymorth gwledig yng Nghymru. Bydd y fframwaith arfaethedig a'r rhaglen ddomestig yn wahanol i'r gweithgareddau presennol a pharhaus sy'n cael eu rhoi ar waith trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 ac yn ychwanegu atynt, nes bod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar gael.

### 1. Egwyddorion, cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau

Cefndir:

Mae polisi amgylcheddol yr UE yn seiliedig ar bedair egwyddor amgylcheddol, sef rhagofalon, ataliol, cywiro yn y tarddle a'r llygrwr sy'n talu, sy'n darparu canllawiau ar gyfer llunio polisiau a gwneud penderfyniadau.

O dan y rheolau presennol, mae'r cymorth ariannol a ddarperir drwy raglen yr UE yn seiliedig ar y 'genhadaeth' ganlynol:

“Bydd yr EAFRD yn cyfrannu at Strategaeth Ewrop 2020 drwy hyrwyddo datblygu gwledig cynaliadwy ledled yr Undeb mewn modd sy'n ategu offerynnau eraill y PAC, y polisi cydlyniant a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Bydd yn cyfrannu at ddatblygu sector amaethyddol yr Undeb sy'n fwy cytbwys o safbwynt tiriogaeth a'r amgylchedd, yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ac yn gystadleuol ac yn arloesol. Hefyd, bydd yn cyfrannu at ddatblygu tiriogaethau gwledig.”

Mae'n rhaid i gymorth ar gyfer datblygu gwledig gyfrannu at gyflawni'r amcanion canlynol:

- meithrin cystadleurwydd amaethyddiaeth;

- sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, a gweithredu ar yr hinsawdd;
- sicrhau datblygiad tiriogaethol cytbwys o economïau a chymunedau gwledig, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth.

Mae'n rhaid dilyn chwe blaenoriaeth ganlynol yr UE ar gyfer datblygu gwledig:

- meithrin y broses o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym meysydd amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig;
- gwella hyfywedd a chystadleurwydd amaethyddiaeth o bob math, a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a dulliau cynaliadwy o reoli coedwigoedd;
- hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd, lles anifeiliaid a rheoli risg ym maes amaethyddiaeth;
- hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth;
- adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

Bydd pob un o'r blaenoriaethau hyn yn cyfrannu at amcanion trawsbynciol arloesi, yr amgylchedd a lliniaru ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Y fframwaith arfaethedig

Ar ddiwedd Cyfnod Gweithredu'r UE, bydd cyfle i gymorth newydd domestig ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru gyfrannu at amcanion a blaenoriaethau sy'n berthnasol i Gymru, a pharhau i ddefnyddio pedair egwyddor amgylcheddol yr UE er mwyn datblygu polisi amgylcheddol.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith lle mae modd darparu cymorth ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru. Hefyd, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

- Cyflwr adnoddau naturiol sy'n darparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol yn ymwneud â'r peryglon a'r cyfleoedd ar gyfer adnoddau naturiol Cymru
- Polisi adnoddau naturiol cenedlaethol sy'n nodi blaenoriaethau a pholisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Datganiadau ardal, sy'n hwyluso'r broses o roi'r polisi adnoddau naturiol ar waith mewn cyd-destun lleol.

Cynnig:

Cynigir bod cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau presennol yr UE yn cael eu disodli â diffiniad dilynol o ddatblygu gwledig er mwyn darparu cymorth ar gyfer yr economi wledig ac ategu uchelgais Cymru i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Dylai cymorth ar gyfer datblygu gwledig gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol â'r hyn a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:

- (a) defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n helpu i gyflawni'r amcan a nodir yn is-adran (2),
- (b) cymryd camau eraill sy'n helpu i gyflawni'r amcan hwnnw, a
- (c) pheidio â chymryd camau sy'n llesteirio'r broses o gyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Yr amcan yw cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision sy'n deillio ohonynt, ac wrth wneud hynny;

- (a) diwallu anghenion cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion; a
- (b) chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r cynnig yn nodi y dylai cymorth ar gyfer datblygu gwledig gyfrannu at 'egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- (a) rheoli mewn ffordd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle bo hynny'n briodol, camau gweithredu sy'n newid;
- (b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;
- (c) hyrwyddo a chymryd rhan mewn prosesau cydweithio a chydweithredu;
- (d) gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;
- (e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth yn ymwneud ag ansicrwydd;
- (f) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau;
- (g) ystyried canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor camau gweithredu;
- (h) cymryd camau i atal difrod sylweddol i ecosystemau;
- (i) ystyried cadernid ecosystemau, gan ganolbwyntio ar yr agweddau canlynol;
  - i. amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
  - ii. y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
  - iii. graddfa ecosystemau;
  - iv. cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth);
  - v. hyblygrwydd ecosystemau.

Cynigir y diffiniad canlynol:

“Ystyr "Datblygu Gwledig" yw "mesurau sy'n gydnaws â”:

- (a) gwarchod neu wella harddwch naturiol neu amwynder cefn gwlad (gan gynnwys ei fflora a'i ffawna a'i nodweddion daearegol a ffisiograffig) neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb archaeolegol yno; neu
- (b) hyrwyddo pleser y cyhoedd yng nghefn gwlad; neu
- (c) dechrau gweithgaredd amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth neu fusnes gwledig, neu wella cynhyrchiant gweithgaredd neu fusnes o'r fath; neu
- (d) dechrau, hyrwyddo neu wella gwasanaethau gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE i'r broses o ddatblygu polisi amgylcheddol ar ôl cyfnod gweithredu'r

UE, a chyn cyflwyno deddfwriaeth i'w hymgorffori yng nghyfraith Cymru, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddorion.

C18. A ydych chi'n cytuno y dylid disodli cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r UE ar gyfer cymorth datblygu gwledig â diffiniad penodol i Gymru ar gyfer datblygu gwledig?

## 2. Mesurau

Cefndir:

Mae deddfwriaeth yr UE yn darparu detholiad o Fesurau sydd ar gael i gefnogi datblygu gwledig. Mae disgrifiadau o'r holl fesurau perthnasol a'r Erthyglau cyfatebol yn y Rheoliad/Rheoliadau Ewropeaidd wedi'u nodi yn Nhabl 1.

Mae'r CDG perthnasol yn nodi Rhesymeg Ymyrraeth sy'n deillio o'r dadansoddiad Sefyllfaol a SWOT, drwy Asesiad o Anghenion er mwyn dewis y Mesurau priodol.

Ni wnaeth Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 (CDG yr UE ar gyfer Cymru) gyflwyno pob Mesur a oedd ar gael yn yr EAFRD.

Tabl 1:

Nid yw'r mesurau a ddynodir â seren yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

<b>Cod y Mesur</b>	<b>Teitl y Mesur</b>	<b>Erthyglau a Rheoliad/Rheoliadau</b>
<b>1</b>	Trosglwyddo gwybodaeth a chamau gweithredu gwybodaeth	Erthygl 14 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>2</b>	Gwasanaethau cynghori, rheoli ffermydd a gwasanaethau rhyddhad ffermydd	Erthygl 15 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>3*</b>	Cynlluniau ansawdd ar gyfer cynnyrch amaethyddol a bwydydd	Erthygl 16 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>4</b>	Buddsoddiadau mewn asedau ffisegol	Erthygl 17 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>5*</b>	Adfer potensial cynhyrchu amaethyddol sydd wedi'i ddifrodi gan drychinebau naturiol, digwyddiadau hinsoddol anffafriol a digwyddiadau trychinebus a chyflwyno camau atal priodol	Erthygl 18 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>6</b>	Datblygu ffermydd a busnesau	Erthygl 19 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>7</b>	Gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig	Erthygl 20 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>8 a 15</b>	Coedwigaeth	Erthyglau 21-26 a 34 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>9*</b>	Sefydlu grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr	Erthygl 27 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013

<b>10</b>	Amaeth-amgylchedd-hinsawdd	Erthygl 28 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>11</b>	Ffermio organig	Erthygl 29 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>12*</b>	Natura 2000 a Thaliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Erthygl 30 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>13*</b>	Taliadau i Ardaloedd sy'n Wynebu Cyfyngiadau Naturiol a Chyfyngiadau eraill	Erthyglau 31 a 32 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>14*</b>	Lles Anifeiliaid	Erthygl 33 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>16</b>	Cydweithredu	Erthygl 35 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>17*</b>	Rheoli Risg	Erthyglau 36 a 39 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013
<b>19</b>	Cymorth ar gyfer datblygu lleol LEADER (Datblygu Lleol Dan Arweiniad y Gymuned)	Erthygl 32-35 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 Erthyglau 42-44 o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, ystyrir bod angen cadw'r ystod lawn o fesurau er mwyn darparu fframwaith cyflawn fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu darparu cymorth drwy ymyriadau newydd nes bod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar gael. Mae hyn yn cynnwys Mesurau nad ydynt yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

Dylid nodi nad yw'r ffaith fod yr holl Fesurau/Erthyglau perthnasol wedi'u cynnwys yn y fframwaith yn golygu y bydd pob un ohonynt yn cael eu defnyddio.

Gall Gweinidogion Cymru ddewis Mesurau priodol gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r berthynas fasnachu â'r UE yn y dyfodol, argaeledd cyllid a chysondeb â chefnogi adferiad "Gwyrdd" o bandemig COVID-19.

### **Cynigion i ddiwygio'r Mesurau**

Mae diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE yn darparu cyfle i symleiddio rhai o'r Mesurau at ddibenion darparu CDG domestig.

Bwriedir gwneud y diwygiadau canlynol:

- Mesur 1, Trosglwyddo Gwybodaeth – ymestyn i gyfeirio'n benodol at iechyd a lles anifeiliaid.
- Mesur 4, Buddsoddi mewn Asedau Ffisegol – ymestyn yr amcanion i gynnwys amcanion treftadaeth ddiwylliannol.
- Mesur 7, Gwasanaethau Sylfaenol ac Adnewyddu Pentrefi – ymestyn i ganiatáu prosiectau cyllid referniw yn ogystal â phrosiectau cyllid cyfalaf; cynnwys opsiynau ar gyfer cefnogi asedau treftadaeth ddiwylliannol.

- Mesurau 8 a 15, Coedwigaeth - ymestyn i gyfeirio at werth diwylliannol yn ogystal â gwerth amgylcheddol coedwigoedd.
- Mesur 14, Iechyd Anifeiliaid – ymestyn i gyfeirio at iechyd a lles anifeiliaid.

Cynnig:

Bwriedir cadw'r holl fesurau yn Nhabl 1 a gwneud mân newidiadau yn unol â'r hyn a nodir uchod.

C19: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r Mesurau?

C20: A oes unrhyw ddiwygiadau neu ddewisiadau eraill yr hoffech eu hawgrymu ar gyfer unrhyw Fesur?

### 3. Trefniadau Llywodraethu a Gweinyddu

Cefndir:

#### **Cynnwys a diwygio CDG domestig newydd**

O dan reoliadau'r UE, ceir gofynion manwl yn ymwneud â chynnwys CDG a diwygiadau iddo.

Mae'n rhaid i bob CDG "weithio tuag at o leiaf bedair o chwe blaenoriaeth EAFRD. Mae'n rhaid i wledydd osod targedau yn unol â meysydd ffocws penodol, gan nodi'r mesurau y byddant yn eu defnyddio a'r cyllid y bydd ei angen arnynt er mwyn cyrraedd y targedau hyn."<sup>1</sup> Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymeradwyo ac yn monitro pob rhaglen. Yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau yn ymwneud â dewis prosiectau unigol a thalu hawliadau.

Mae diwedd y cyfnod gweithredu yn gyfle i gryfhau rôl Gweinidogion Cymru wrth oruchwylio'r gwaith o lywodraethu'r rhaglen a'r cyfeiriad strategol, drwy gysoni'r gofynion â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd.

#### **Cyllid**

Ceir gofynion manwl yr UE yn ymwneud ag adnoddau a'u dosbarthiad, cyfraniad y gronfa (cyfraniad yr UE at y rhaglen), cymhwysedd gwariant, mesurau dilysu a rheoli, a gwneud rhagdaliadau.

Mae diwedd y Cyfnod Gweithredu yn gyfle i ddisodli'r gofynion hyn â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a chraffu gan y Senedd ar gyfer y CDG domestig newydd yn unig.

#### **Awdurdod Rheoli (a swyddogaethau eraill)**

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am "reoli a gweithredu'r rhaglen mewn ffordd effeithlon, effeithiol a chywir." Ar hyn o bryd, mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan Lywodraeth Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi corff cydgysylltu, gan weithredu ar y cyd â Gweinidogion eraill y DU, sy'n gyfrifol wedyn am achredu pob Asiantaeth Dalu (yng Nghymru, Taliadau Gwledig Cymru) ac am benodi corff ardystio (yng Nghymru,

<sup>1</sup> [https://ec.europa.eu/info/food-farming-fisheries/key-policies/common-agricultural-policy/rural-development\\_en#latest](https://ec.europa.eu/info/food-farming-fisheries/key-policies/common-agricultural-policy/rural-development_en#latest)



Archwilio Cymru) i gwblhau archwiliadau cyfreithlondeb a rheoleidd-dra ar ran y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae rheolau manwl yr UE yn berthnasol i'r holl swyddogaethau hyn, ac mae'r Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am gasglu data, cofnodi a rhannu gwybodaeth ystadegol; monitro a gwerthuso; darparu gwybodaeth; llunio adroddiad cynnydd blynyddol; a sicrhau cyhoedduswydd i'r rhaglen, drwy Rhwydwaith Gwledig Cymru.

Pan ddaw'r cyfnod ymadael i ben, bydd cyfle i gryfhau swyddogaeth Gweinidogion Cymru drwy'r awdurdod rheoli o safbwynt goruchwyllo'r CDG domestig newydd, drwy sicrhau cysondeb â gweithdrefnau safonol Llywodraeth Cymru a phrosesau craffu'r Senedd. Mae swyddogaeth y Corff Cydgysylltu a'r Corff Ardystio wedi'u dileu drwy ddeddfwriaeth Ymadael yr UE sy'n gwneud cywiriadau gweithrediad.

Cynigir dileu'r gofynion canlynol o swyddogaeth yr Awdurdod Rheoli ar y sail bod y swyddogaethau hyn eisoes wedi'u hymgorffori yng ngweithdrefnau Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod system electronig ddiogel briodol ar waith i gofnodi, cynnal, rheoli ac adrodd ar wybodaeth ystadegol yn ymwneud â'r rhaglen a'r broses o'i gweithredu;
- sicrhau bod buddiolwyr ac eraill yn cael gwybod am eu rhwymedigaethau sy'n deillio o'r cymorth a roddwyd;
- darparu gwybodaeth a dogfennau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen er mwyn monitro'r broses o gyflwyno'r rhaglen a'i rhoi ar waith;
- sicrhau bod yr Asiantaeth Dalu yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol;
- sicrhau cyhoedduswydd ar gyfer y rhaglen.

Mae Rheoliadau'r UE yn cynnwys nifer o ofynion ychwanegol gan gynnwys:

**Manylion cymorth yr UE ar gyfer datblygu gwledig ym mhob Aelod-wladwriaeth ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen.**

Cynigir y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y cymorth ar gyfer datblygu gwledig drwy weithdrefnau setliad cyllideb ganolog Llywodraeth Cymru a gwaith craffu gan y Senedd.

**Symiau a chyfraddau cymorth ar gyfer mesurau gwahanol.**

Cynigir troi trothwyon yr UE yn sterling.

**Meini prawf bioffisegol ar gyfer amffinio ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol.**

Ar ôl diwedd cyfnod gweithredu'r UE, os yw Mesur 13 yn cael ei roi ar waith mewn unrhyw CDG newydd, bydd angen sefydlu meini prawf i ddiffinio ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol. Cynigir cadw Atodiad 3 o Reoliad (UE) 1305/2013.

Cynigir hepgor Atodiadau Rheoliad (UE) 1305/2013 eraill mewn perthynas ag is-raglenni thematig; amodoldebau'r dyfodol ar gyfer datblygu gwledig; a pherthnasedd mesurau i flaenoriaethau'r UE.

Cynnig:

- Disodli'r gofynion manwl yn ymwneud â chynnwys a diwygio CDG a ariennir yn ddomestig yn y dyfodol â gweithdrefn Llywodraeth Cymru a gwaith craffu'r Senedd.
- Cryfhau swyddogaeth Gweinidogion Cymru wrth oruchwylio'r CDG domestig newydd, drwy ei chysoni â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a gwaith craffu'r Senedd.
- Dileu darpariaethau rheoleiddiol yn ymwneud â chyllid ar gyfer unrhyw CDG domestig newydd a'u disodli â gweithdrefnau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

C21. A ydych yn cytuno â'r syniad o ddileu gofynion manwl ar gyfer cynnwys a diwygio rhaglen datblygu gwledig yn y dyfodol?

C22. A ydych yn cytuno â chryfhau swyddogaeth yr Awdurdod Rheoli?

#### **4. Rhwydweithio Ewropeaidd**

Cefndir:

Mae deddfwriaeth yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd rhan yn Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (ENRD). Mae'r ENRD yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth am sut mae polisi, rhaglenni, prosiectau a mentrau datblygu gwledig eraill yn gweithio'n ymarferol a sut y gellir eu gwella i gyflawni mwy. Ei nod yw ymgysylltu ag unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu gwledig yn Ewrop ac sy'n ymrwymo i'r maes. Mae'r ENRD yn cefnogi'r broses o weithredu CDG gwledydd yr UE yn effeithiol trwy greu a rhannu gwybodaeth, a thrwy hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ledled Ewrop wledig.

Mae Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer cynhyrchiant a chynaliadwyedd amaethyddol (EIP-Agri) hefyd yn cefnogi nodau datblygu gwledig drwy hyrwyddo arloesi mewn amaethyddiaeth a chymunedau gwledig. Sefydlwyd yr EIP-Agri er mwyn pontio'r bwlch rhwng yr atebion arloesol a ddatblygwyd gan ymchwilwyr a'r defnydd o fathau newydd o dechnoleg gan bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig.<sup>2</sup>

Pan ddaw Cyfnod Gweithredu'r UE i ben, bydd yn ddymunol rhannu gwybodaeth a syniadau yn ymwneud â datblygu gwledig oddi mewn a rhwng Cymru, y DU ac Ewrop. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd rhwydweithio ond mae'n bosibl na fydd angen nodi hynny mewn deddfwriaeth bellach.

Cynnig:

Y cynnig yw dileu'r gofynion rheoleiddiol yn ymwneud â rhwydweithio.

C23. A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion yn ymwneud â rhwydweithio?

---

<sup>2</sup> [https://ec.europa.eu/info/food-farming-fisheries/key-policies/common-agricultural-policy/rural-development\\_en](https://ec.europa.eu/info/food-farming-fisheries/key-policies/common-agricultural-policy/rural-development_en)

## 5. Monitro a gwerthuso ac adrodd

Cefndir:

Ar hyn o bryd, mae gofynion rheoleiddiol manwl yn bodoli yn ymwneud â monitro a gwerthuso, gan gynnwys yr amcanion a'r dangosyddion a ddefnyddir at y diben hwn, sy'n gyson ar lefel yr UE ac, wedi hynny, ar lefel ryngwladol, gan gynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglen wedi'i sefydlu sydd, ynghyd â'r Awdurdod Rheoli, yn gyfrifol am fonitro ansawdd y broses o roi'r rhaglen ar waith.

Drwy'r gwaith monitro, mae modd gwerthuso polisïau a rhaglenni yn erbyn eu hamcanion a nodi a yw'r canlyniadau dymunol wedi'u sicrhau mewn ffordd deg a chost effeithiol. Mae monitro a gwerthuso yn hanfodol er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at nodau strategol.

Pan ddaw Cyfnod Gweithredu'r UE i ben, mae cyfle i integreiddio'r broses o fonitro a gwerthuso'r CDG domestig newydd yn well ledled meysydd yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (EERA) Llywodraeth Cymru. Dylai hyn fod yn gyson â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gellir cyflawni hyn drwy ddwyn ynghyd yr agweddau, y gweithgareddau a'r adnoddau gwahanol sy'n gysylltiedig â monitro a gwerthuso oddi mewn i EERA a thrwy ddatblygu set o ddangosyddion amcanion sy'n fwy cyson â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac adroddiadau rhyngwladol wedyn.

Hefyd, gallai mesur cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn erbyn amcanion a dangosyddion ar gyfer Cymru yn benodol symleiddio gwaith craffu ac atebolrwydd yn y dyfodol.

Cynnig:

Cynigir

- cadw gofynion rheoleiddiol i fonitro a gwerthuso gwariant cyhoeddus ar ddatblygu gwledig, ond gwella a chyfuno prosesau a dangosyddion.
- datblygu cyfres o ddangosyddion amcanion sy'n fwy cyson â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac adroddiadau rhyngwladol wedyn
- cadw'r gofyniad i adrodd yn flynyddol ar gyflwyno unrhyw raglen datblygu gwledig ddomestig.

C24. A ydych chi'n cytuno y dylid cyfuno a gwella'r broses o fonitro a gwerthuso cymorth ar gyfer datblygu gwledig, gan ddefnyddio amcanion a dangosyddion i Gymru'n benodol?

C25. A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar roi ei rhaglen datblygu gwledig ar waith?

**Camau Nesaf:**

Mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn gatalydd ar gyfer diwygiadau rheoli tir yng Nghymru. Mae yna ddadl gref o blaid parhau i gefnogi ein rheolwyr tir, ond mae angen i ni wneud hynny mewn ffordd wahanol er mwyn manteisio'n llawn ar fuddion posibl ein tir ar gyfer y genedl. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyn yn 2020 gyda'r bwriad o gyflwyno Bil Amaethyddol (Cymru) yn nhymor nesaf y Senedd a gweithio gyda'r diwydiant i ddeall effaith symud o gynllun cymorth incwm sy'n seiliedig ar hawliau i gynllun gwirfoddol sy'n gwobrwyo'r broses o sicrhau canlyniadau.

Bydd yr adborth o'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio arferion a gofynion y cynllun o 2021, nes bod penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud ar natur y cynlluniau newydd a bod cyfnod pontio'n cychwyn sy'n ddigonol o ran hyd i alluogi ffermwyr i addasu eu modelau busnes presennol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion mewn ymateb i'r adborth a gasglwyd o'r ymgynghoriad hwn.

**Ffurflen Ymateb i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Crynodeb o'r Cwestiynau:**

**1. Cyfraddau talu a dyraniad blynyddol BPS**

C1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf y BPS, mewn perthynas â Chymru?

C2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno mesurau ychwanegol a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru reoli unrhyw gyllideb BPS nas gwariwyd?

**2. Rheol cais sengl trawsffiniol (ledled y DU)**

C3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu ceisiadau trawsffiniol ac ystyried tir Cymru yn unig ar gyfer hawliadau BPS yng Nghymru, gan ddileu'r angen i aros am wiriadau gan asiantaethau talu eraill?

C4. A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai maint lleiaf yr hawliad aros yn ddigyfnewid a pheidio â gwneud unrhyw ddarpariaeth i ffermwyr sy'n dibynnu ar dir mewn rhannau eraill o'r DU ar hyn o bryd i gydymffurfio ag arwynebedd maint lleiaf yr hawliad, sef 5 hectar cymwys?

**3. Taliad Gwyrdd**

C5. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gadw arferion y taliad gwyrdd drwy draws gydymffurfio?

C6. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r rheol Tyfu Amrywiaeth o Gnydau o ofynion y Taliad Gwyrdd?

**4. Cynllun Ffermwyr Ifanc**

C7. A ydych yn credu y dylem gau'r Cynllun Ffermwyr Ifanc i geisiadau newydd o 2021?

C8. Ac eithrio'r opsiwn i gau'r Cynllun Ffermwyr Ifanc i geisiadau newydd o 2021, a oes opsiynau eraill y gellid eu hystyried?

**5. Rheolau'n ymwneud â dogfennau ategol hwyr ar gyfer BPS**

C9. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn dyddiad cyflwyno dogfen ategol y BPS i 31 Rhagfyr?

C10. A ydych yn cytuno â'r cynnig i beidio â newid y dyddiad terfynol ar gyfer ceisiadau a'r gosb am gais hwyr?

**6. Y Gronfa Genedlaethol**

C11. A ydych chi'n cytuno y dylid ehangu categorïau'r gronfa genedlaethol i gynnwys tir ychwanegol a gaffaelwyd?

C12. A oes unrhyw gategorïau neu gynigion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer y Gronfa Genedlaethol yn eich barn chi?

## **7. Cyfraddau Arolygu**

C13. A ydych yn cytuno â'r bwriad hwn i leihau cyfraddau arolygu'r BPS?

## **8. Datgan gormod o dir**

C14. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu cyfyngiad y "Cerdyn Melyn?"

## **9. Cyfnod Talu BPS ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi'u dilysu**

C15. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno model rhagdaliad a thaliad olaf a dileu'r gofyniad am ddilysu hawliadau'n llawn cyn gwneud rhagdaliad cynnar?

## **10. Gofyniad Ffermwr Actif**

C16. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad rhestr negyddol ar gyfer Ffermwyr Actif a chadw'r lefelau sylfaenol o 'Weithgarwch Amaethyddol'?

## **11. Cywarch**

C17. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i dynnu tir a ddefnyddir i gynhyrchu cywarch oddi ar y rhestr o godau cnydau cymwys a pheidio â bod yn gymwys ar gyfer BPS bellach?

## **Cynigion Datblygu Gwledig Domestig;**

### **1. Cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau**

C18. A ydych chi'n cytuno y dylid disodli cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cymorth datblygu gwledig â diffiniadau penodol i Gymru ar gyfer datblygu gwledig?

### **2. Mesurau**

C19: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r Mesurau?

C20: A oes unrhyw ddiwygiadau neu ddewisiadau eraill yr hoffech eu hawgrymu ar gyfer unrhyw Fesur?

### **3. Trefniadau gweinyddol**

C21. A ydych yn cytuno â'r syniad o ddileu rheoliadau manwl sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys a diwygio rhaglen datblygu gwledig yn y dyfodol?

C22. A ydych yn cytuno â chryfhau swyddogaeth yr Awdurdod Rheoli?

### **4. Rhwydweithio Ewropeaidd**

C23. A ydych chi'n cytuno y dylid dileu gofynion rheoleiddiol yn ymwneud â rhwydweithio?

### **5. Monitro a gwerthuso ac adrodd**

C24. A ydych chi'n cytuno y dylid cyfuno a gwella'r broses o fonitro a gwerthuso cymorth ar gyfer datblygu gwledig, gan ddefnyddio amcanion a dangosyddion i Gymru'n benodol?

C25. A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar roi ei rhaglen datblygu gwledig ar waith?

## **Cwestiynau Ychwanegol:**

C26: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion arfaethedig ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r Cynllun Datblygu Gwledig Domestig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

C27: Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid yr opsiynau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C28: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddienw, ticiwch yma: